


Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL



Hastings House
Fitzalan Court
Cardiff
CF24 0BL

E-bost:
ymholiadau@ffinau.cymru
www.cffdl.llyw.cymru

☎ (029) 2046 4819
Ffacs/Fax (029) 2046 4823

E-mail:
enquiries@boundaries.wales
www.ldbc.gov.wales

Cynigion Drafft Caerffili – atal ymgynghoriad dros dro

24 Mawrth 2020

Mae'r Comisiwn wedi penderfynu atal ei ymgynghoriad ynglŷn â'i gynigion drafft ar gyfer trefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili yn y dyfodol.

[Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion drafft ar 16 Ionawr 2020](#). Dechreuodd y cyfnod ymgynghori 12 wythnos ynglŷn â'r cynigion drafft ar 23 Ionawr 2020 a disgwyliwyd iddo ddod i ben ar 15 Ebrill 2020.

Mae'r Comisiwn wedi cael gwybod bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi atal holl gyfarfodydd ei aelodau er mwyn canolbwyntio ar ei ymateb brys i'r pandemig COVID-19. Mae'r Cyngor wedi dweud y bydd atal ei gyfarfodydd yn golygu na all ymateb i adroddiad drafft y Comisiwn, ac mae wedi gofyn i'r Comisiwn gymryd camau i alluogi'r Cyngor i ymateb pan fydd ei weithrediadau arferol yn ailgychwyn.

Yng ngoleuni'r cais hwn a'r anawsterau posibl i ymgynghoreion eraill o ganlyniad i'r pandemig presennol, mae'r Comisiwn yn atal yr ymgynghoriad ynglŷn â'i gynigion drafft ar gyfer Caerffili o **24 Mawrth 2020**.

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn bwriadu ailgychwyn yr ymgynghoriad hwn ar **15 Mehefin 2020**. Bydd atal dros dro tan y dyddiad hwnnw yn darparu cyfnod o 12 wythnos i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac ymgynghoreion eraill addasu eu trefniadau gwaith er mwyn gallu ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn.

Cyn 15 Mehefin 2020, bydd y Comisiwn yn adolygu'r sefyllfa yng ngoleuni datblygiadau ehangach a bydd yn rhoi gwybodaeth bellach i ymgynghoreion. Bydd y Comisiwn yn ailgychwyn ei ymgynghoriad dim ond pan fydd yn fodlon bod ymgynghoreion wedi cael digon o gyfle i fynd i'r afael â'r amhariad ar eu gallu i ymateb o ganlyniad i'r pandemig presennol.

Pan fydd y cyfnod ymgynghori'n ailgychwyn, bydd cyfnod o **22 o ddiwrnodau** i bartïon â buddiant gyflwyno cynrychiolaethau i'r Comisiwn mewn perthynas ag adroddiad drafft Caerffili. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau a gyflwynwyd iddo, yn paratoi Argymhellion Terfynol ac yn cyflwyno'r rhain i Lywodraeth Cymru.

Gellir anfon unrhyw gwestiynau ynglŷn ag atal yr ymgynghoriad hwn dros dro at **ymholiadau@ffiniau.cymru** neu i'r cyfeiriad canlynol:

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Tŷ Hastings

Caerdydd

CF24 0BL



Shereen Williams

Prif Weithredwr / Chief Executive

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission for Wales